

O boptu'r Pasg

"... oherwydd dioddefodd Crist yntau er eich mwyn chwi, gan adael ichwi esiampl, ichwi ganlyn yn ôl ei draed ef." (adn. 21)

Beth am ddarllen 1 Pedr 2:13–25 ac yna myfyrio

Mae gwahanol awduron Cristnogol wedi nodi bod llawer o Gristnogion yn anesmwyth ynglŷn â'r efengylau. Maen nhw'n tueddu i ganolbwyntio mwy ar lythyron yr apostolion nag ar y pedair efengyl am eu bod – a hynny'n ddigon cywir – am fyw mewn profiad wedi'r Pasg. Ond mae perygl mewn bychanu'r digwyddiadau a arweiniodd at y croeshoeliad a'u hystyried yn amherthnasol i ni. Gall hyn ein harwain i feddwl mai Crist oedd yr un i ddioddef a marw, ac mai byw a gorfoleddu ydy ein rhan ni.

Os darllenwn ni'r efengylau'n ofalus, fodd bynnag, byddwn yn gweld bod yr apostolion yn byw o boptu'r Pasg ac nad ydy bod yn ddisgybl unochrog yn tycio dim. Mae Pedr, fel Paul, yn gorfoleddu yn yr iachawdwriaeth a'r fuddugoliaeth sydd wedi'u hennill i ni drwy farwolaeth unigryw Oen Duw. Ond eto, mae'r ddau ddisgybl yma yn gwybod hefyd nad ydy'r atgyfodiad wedi dileu'r groes, ond ei fod yn hytrach yn ei chadarnhau fel y ffordd o fyw er anrhydedd i Dduw. Felly, bydd canlyn Crist yn golygu dioddef caledi ac anghyfiawnder a hyd yn oed erledigaeth. Ac er mwyn dilyn ei esiampl, mae'n rhaid i ni hefyd ddysgu ei gyfrinach ynglŷn â sut i ymateb fel yr ymatebodd ef, heb adweithio i sbeit â chasineb, heb ymateb i sarhad drwy ddial. Yn hytrach, dylen ni ymddiried, fel Iesu, yn y Duw sy'n barnu'n gyfiawn.

Yn wreiddiol, roedd geiriau Pedr yn cyfarch Cristnogion oedd yn gaethweision, ac roedden nhw'n gallu disgleirio fel Crist hyd yn oed wrth gael eu trin yn anghyfiawn gan eu meistri gormesol. Mae nifer o Gristnogion heddiw yn cael eu trin yn anghyfiawn oherwydd eu ffydd. Ond os gall Cristnogion y ganrif gyntaf amlygu Iesu, yna yn sicr fe ddylen ni!

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Marc 10:35–40; Actau 5:17–32; 5:41–42; 6:8–15; 7:51–60.

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd ymateb Pedr i galedi?
2. Beth oedd ymateb Steffan i erledigaeth?

Gweddi

O Dad, maddau i mi os ydw i wedi bod yn ddisgybl unochrog, yn llawenhau ym muddugoliaeth atgyfodiad dy Fab, ond gan anghofio bod gennyf groes i'w chodi hefyd. Dw i am fyw o boptu'r Pasg. Helpa di fi, O Dad. Amen.